COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 TACHWEDD 2026 AM 7.30YH

1. Yn bresennol: Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Shan Rees, Rheinallt Jones, Eifion Jones, Louise Carter, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Cyng Viv Davies, Philip Davies a Nicola Jones.

2. Cyfethol aelod i'r Cyngor Cymuned

Cadarnhawyd cyfetholiad Louise Carter yn aelod o Gyngor Cymuned Llandyfaelog. Llofnododd y Cynghorydd Carter y datganiad derbyn swydd. Croesawodd Cadeirydd y Cyngor y Cynghorydd Carter i'w chyfarfod cyntaf.

3. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

4. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

5. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Hydref 2026.

6. Materion yn Codi

1. **Green Gen** – Trafododd aelodau'r digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn Llandyfaelog ar 24ain Hydref 2026 a gweminar y Cynghorau Cymuned a gynhaliwyd ar 13fed Hydref 2026. Bydd y Clerc yn gysylltu â NESO mewn perthynas â darparu cynllun llawn o'r holl ddatblygiadau arfaethedig.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth -** Roedd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth i ddilyn y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio â'r Hysbysiad Gorfodi sef 17eg Rhagfyr 2026. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Derbyniwyd cadarnhad, yn dilyn cyhoeddi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi'u derbyn gan y Cyngor Sir. Y cam nesaf oedd i'r tîm Cyfreithiol drefnu i'r Gorchymyn ddod i rym dros yr wythnosau nesaf. Bydd y Cyngor Sir hefyd yn cyfarwyddo tîm Priffyrdd i archebu a gosod yr arwyddion angenrheidiol. Nodwyd.
4. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Nododd y Cyngor byddai'r Ymchwiliad Cynllunio yn cael ei gynnal ar 9fed Tachwedd 2026.
5. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **PL/10552** - **Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn**

Llandyfaelog, Caerfyrddin – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

7. **Prosiect Is-orsaf NGED –** Trafododd aelodau'r ymweliad safle a gynhaliwyd yn Is-orsaf Treforys ar 29ain Hydref 2026.
8. **Gwynt Glas –** Nodwyd bod digwyddiad ymgynghori pellach wedi'i drefnu ar gyfer 17eg Tachwedd 2026 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.
9. **Ciosg Ffôn BT – Croesyceiliog –** Nodwyd bod gwaith wedi'u gwblhau ar atgyweiriadau i'r ciosg.
10. **Rhoddion a wnaed yng nghyfarfod Cyngor mis Hydref** – Nodwyd llythyr diolch oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog, Neuadd Gymuned Llandyfaelog ac Angor.

7. Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
2. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cylchgrawn Calon Tân. Nodwyd.
3. **Llywodraeth Cymru -** Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru – Galwad am Dystiolaeth. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am enwebiadau. Gwobrau Chwaraeon Actif. Nodwyd bod enwebiad wedi'i gyflwyno ar gyfer Ryan Elias.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau ffordd ar hyd yr U2218 Heol Penyfedw, Llandyfaelog (SA17 5RD) o'i chyffordd â'r C2074 am bellter o 130 metr i gyfeiriad y De-ddwyrain ar ddydd Llun 19eg Hydref 2026 am gyfnod o 2 ddiwrnod rhwng 08:00 a 18:00. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth wedi'i diweddaru gan Lywodraeth Cymru ar Swyddi sydd â Chyfyngiadau Gwleidyddol. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 5ed Hydref 2026 a'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 18eg Medi 2026. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Nodiadau Datblygu Ymarfer. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Cylchgrawn Y Llais. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol drafft. Nodwyd.
11. **Cyngor Tref Cydweli** – Gwahoddiad i fynychu Seremoni Goleuo Nadolig Cydweli ar 28ain Tachwedd 2026. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o Gau Ffordd Dros Dro ar yr C2057 Llandyfaelog, SA17 5NA ar 10/11/26 am gyfnod o 2 ddiwrnod rhwng 08:00 a 18:00. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o Gau Ffordd Dros Dro ar yr U2219 Towy Castle Lodge, Upland Arms SA32 8DY, ar 09/11/26 rhwng 09:30 a 15:30. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygwyr: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033. Nodwyd.
15. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
16. **Banc Barclays** – Datganiadau. Cyd-llofnodwyd y cysoniad banc gan y Cyng Eifion Jones. Nodwyd.
17. **Cylchgrawn Chwarae dros Gymru** – Nodwyd.

18. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Llunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Arolwg gyda'n gilydd. Nodwyd.
19. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
20. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd dros dro y C2074, Blaencwm ar 9fed Tachwedd 2026 rhwng 9.30yb a 15.30yp. Nodwyd.
21. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** – Gwahoddiad i fynychu digwyddiad ymgynghori ar-lein ar 3ydd Tachwedd 2026 mewn perthynas â Meddygfa Sarn. Nodwyd. Roedd y Cynghorwyr Janet Knott a Meinir James wedi mynychu'r sesiwn a nodwyd y cynnig i gadw'r Feddygfa gyda llai o oriau agor. Byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn berson ar 26ain Tachwedd 2026 ym Mhontiets gyda digwyddiad ar-lein ar 24ain Tachwedd 2026. Nodwyd.
22. **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** - Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26. Nodwyd.

8. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Nodwyd atgyweiriadau i bost ym maes parcio cae Idole gyda chost o £45.00 yn cael ei gymeradwyo.
2. Nodwyd yr angen i dorri'r gwair yn Ardal Mwynderau Bancycapel.

9. Atgyweiriwr Cymunedol

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Hydref gyda chyfanswm cost o £672.00 yn cael ei gytuno.

10. Digwyddiadau Gymunedol 2026

1. **Sul Y Cofio –** Nododd y Clerc y byddai Gwasanaeth Sul y Cofio yn cael ei gynnal ar 8fed Tachwedd o 2yp yn Eglwys Llandyfaelog, ac yna Gwasanaeth yn Nhir Gof. Nodwyd.

   Cymeradwywyd taliad o £27.00 am y Dorch Goffa.

11. Rheolau Sefydlog y Cyngor

Cyflwynodd y Clerc rheolau sefydlog wedi'u diweddaru drafft. Cymeradwywyd y ddogfen fel polisi'r Cyngor.

12. Cyfrifon Ariannol 2025-26

Cyflwynodd y Clerc y Cyfrifon Ariannol a'r Ffurflen Flynyddol ar ôl cwblhau'r archwiliad, a oedd wedi nodi barn gadarnhaol ddiamod. Derbyniwyd y cyfrifon a diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda'r cofnodion ariannol.

13. Cynllunio

1. **PL/11507 -** Cais Adran 37 ar gyfer gosod tyrau newydd a llinell uwchben i gysylltu llinell drosglwyddo uwchben (OHL) 4YV - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin. Roedd y Cynghorydd Nicola Jones wedi drafftio llythyr o

gwrthwynebiad. Cafodd hwn ei gymeradwyo a bydd yn cael ei gyflwyno ar ran y Cyngor.

14. Ceisiadau am Cymorth Ariannol

1. **Opera Ieuenctid Caerfyrddin –** Cytunwyd rhodd o £50.00.

15. Cyfrifon

Cymeradwywyd y Taliadau canlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Hydref	£823.90 £26.00	£14.30	£864.20	£329.60		£534.60

2. Arfon Davies **£27.00** Torch Sul y Cofio (gweler eitem 10.1)

3. Michael Leefe **£717.00** Atgyweiriwr Hydref (gweler eitem 9 a 8.1)

16. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nododd y Clerc y materion canlynol a adroddwyd i'r Cyngor Sir:
   a. Golau stryd diffygiol rhwng Idole a Phentrepoeth.
2. Bydd arwydd dim baw cŵn yn cael ei osod yn Heol y Lan.
3. Nodwyd noson Goleuadau Nadolig Llandyfaelog ar gyfer 30ain Tachwedd 2026.
4. Nodwyd noson cyri codi arian ar gyfer Neuadd Gymunedol Llandyfaelog ar gyfer 9fed Tachwedd 2026.
5. Nodwyd Gyrfa Chwist Twrci ar gyfer Eglwys Llandyfaelog ar 15eg Rhagfyr 2026.

17. Nododd y Clerc ei diddordeb yn y mater hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater. Cais Cynllunio CAS-03952-H9R8G4 - Parc Solar Heolddu, Maesmawr a Fferm Treforris Fawr, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, SA17 5YD.

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi danfon ebost at PEDW gyda nifer o gwestiynau am y sesiynau ymchwilio ac roedd wedi derbyn ymateb drwy ebost oddi wrth PEDW. Darllenwyd ymateb PEDW i'r ymholiadau i'r aelodau oedd yn bresennol.

Eglurwyd bod PEDW wedi nodi, wrth ymateb, "mae'r atebion yn ganllawiau cyffredinol yn unig ac y bydd yr holl ofynion penodol a manylion yn cael eu pennu gan yr Archwilwyr yn hwyrach".

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3ydd Rhagfyr 2026.